Daw Popeth 'Nol

Dim ond mewn capel gwag fu e'
Yn fodlon canu'r piano
Daeth 'nol o Ffrainc heb glwyf i weld
Ond roedd 'na glwyf dwfn yno
Ac ambell waith, dawnsio wna'i
Braidd symud ar ei goesau
A lamp y stryd yn taflu cylch
O olau aur i'w 'sgwyddau.

Ma'r coed yn ôl ar hen Benhydd
Er nid coed deri ydynt
Mae'r niwl yn oedi ar ôl glaw
Ym mrigau y coed pinwydd
Mae'r eog 'nol yn nŵr y nant
A phur yw dwr yr afon
Ma'r llwyth glo ola' wedi mynd
I harbwr Aberafan.

Nol, nol, daw popeth yn ôl
Fel haul y bore a blode y ddol
Cylchoedd mewn amser yn hanes y byd
Daw pethe 'nol i'w lle, rhyw bryd.

Mae hi bron blwyddyn ers i ti fynd
Dwy'n dal i adrodd y stori
Rwyt ar fy meddwl bron bob dydd
Falle caf i orffwys 'fory
Dwy wedi bod fan hyn o'r blaen
A bydda'i yma eto
Mae gwers i'w dysgu, siŵr o fod
(Ond) wna'i ddim ei dysgu eto.

©Geraint Griffiths 2001